Hunanwerthusiad o Wasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol i Blant a Phobl Ifanc Tachwedd 2017

Dyma'n gweledigaeth yn yr Adran Addysg:

Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn gallu datblygu i'w botensial.

Mae Cyngor Abertawe wedi blaenoriaethu pum amcan lles sef:

- *Diogelu pobl rhag niwed* – er mwyn sicrhau bod ein dinasyddion yn ddiogel rhag niwed a chamfanteisio.

- ***Gwella Addysg a Sgiliau* – fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd.**
- *Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd* – fel bod gan Abertawe ganol dinas defnydd cymysg, ffyniannus ac economi leol a fydd yn cefnogi ffyniant ein dinasyddion.
- *Trechu Tlodi* – fel bod pob person yn Abertawe'n gallu cyflawni ei botensial.
- *Trawsnewid a datblygu'r cyngor yn y dyfodol* - fel ein bod ni a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu'n gynaliadwy ac yn addas i'r dyfodol.

Yn dilyn yr hunanwerthusiad, proses a oedd yn cynnwys trafodaeth â rhanddeiliaid allweddol, rydym wedi nodi pum blaenoriaeth allweddol i'r Adran Addysg ar gyfer 2017-2018. Sef:

- **Gwella ansawdd arweinyddiaeth, profiadau dysgu ac addysgu a'u heffaith ar ddeilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr**
- **Datblygu strategaeth a pholisi ADY newydd a'u rhoi ar waith**
- **Datblygu strategaeth lles ac ymddygiad newydd a'i rhoi ar waith**
- **Gwella'r ddarpariaeth EOTAS ymhellach i godi safonau cyflawniad eto a gwella ymhellach integreiddio yn ôl i ysgolion**
- **Sicrhau y cynhelir yr holl gyfleoedd dysgu mewn amgylcheddau diogel**

Caiff y pum blaenoriaeth hyn ac eraill a nodir yn yr adroddiad hunanwerthuso eu datblygu gyda chamau gweithredu priodol yng Nghynllun y Gwasanaeth Addysg, 2017-2018 a chynlluniau Uned yr Adran Addysg, 2017-2018.

Cwestiwn Allweddol 1 Pa mor dda yw'r deilliannau?

1.1Safonau

Crynodeb

- Mae gan Abertawe hanes cryf o wella deilliannau dysgwyr ar draws yr holl gyfnodau mewn ysgolion ac mae'r perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi bod yn neilltuol, yn enwedig rhwng 2012 a 2016.
- Erys perfformiad disgyblion prydau ysgol am ddim yn sefydlog yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Mae'r bwlch mewn perfformiad ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn ehangu yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn y Cyfnod Sylfaen.
- Dengys perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen duedd wella gadarnhaol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, erys dangosydd deilliannau cyffredinol y Cyfnod Sylfaen yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae'r gyfradd wella wedi bod yn arafach na'r gyfradd genedlaethol ac o ganlyniad, mae'r safle wedi disgyn. Wrth wahanu perfformiad disgyblion o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY), mae'r safle a'r gymhariaeth â'r cyfartaledd cenedlaethol yn fwy ffafriol. Yn gyffredinol, mae perfformiad yn ddigonol.
- Mae perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 2 yn dangos tuedd wella gadarnhaol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae perfformiad presennol yn dangos bod Abertawe'n gyfartal â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r gyfradd wella wedi bod yn arafach na'r gyfradd genedlaethol yn ystod y tair blynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae perfformiad yn dda gyda bron naw deg y cant o ddysgwyr yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd cyn iddynt adael yr ysgol gynradd.
- Mae perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf. Mae Abertawe bellach yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y dangosydd pynciau craidd, gyda chyfradd wella gyflymach na'r gyfradd genedlaethol yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae ei safle'n uwch na'r disgwyl. Mae perfformiad mewn profion cenedlaethol yn dda iawn. Yn gyffredinol, mae perfformiad yn gryf.
- Mae perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 rhwng 2012-2016 yn neilltuol, gydag ysgolion Abertawe'n dangos gwelliant parhaus yn yr holl brif ddangosyddion. Mae cymhariaeth â'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob prif ddangosydd wedi bod yn ffafriol dros amser yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, yn 2016-2017, mae arholiadau newydd wedi arwain at berfformiad yn cael ei addasu ledled Cymru. Erys perfformiad Abertawe'n gymharol gryf er gwaethaf gostyngiadau mewn dangosyddion perfformiad. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'n anodd cymharu â blynyddoedd blaenorol. Nid yw gwybodaeth am berfformiad wedi'i dilysu tan fis Hydref.
- Mae bron pob dysgwr yn ysgolion Abertawe wedi cyflawni'r trothwy lefel 3 yn yr arholiadau Safon Uwch yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad wedi aros yn gryf dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r sgôr pwyntiau gyfartalog yn amrywiol iawn rhwng blynyddoedd a dosbarthiadau'r chweched, ond digonol yn unig ydyw'n gyffredinol. Gostyngodd cyfartaledd Abertawe yn 2017 o'i gymharu â 2016, ond mae'n uwch na chyfartaledd 2015. Mae perfformiad ar y graddau uwch wedi gwella dros amser. Mae Abertawe'n disgyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer perfformiad A*-A. (Heb ei gyhoeddi ar gyfer 2017). Erys perfformiad

graddau A*-C yn sefydlog dros amser. Ar gyfer perfformiad graddau A*-E, cafwyd perfformiad sefydlog a chryf ar dros 90% dros y tair blynedd diwethaf.

- Mae perfformiad grwpiau o ddysgwyr yn Abertawe'n arwydd o duedd wella gadarnhaol. Mae perfformiad disgyblion SIY yn gryf. Fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, a'r rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim, yn ehangu.

  Dengys deilliannau mewn gwyddoniaeth, technoleg (yn enwedig codio a chyfrifiadureg), peirianneg a mathemateg (pynciau STEM) amrywioldeb rhwng blynyddoedd ac ysgolion.

Meysydd i'w datblygu

- Parhau i wella perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen.
- Gwella perfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ym mhob cyfnod allweddol ac yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4 a'r Cyfnod Sylfaen.
- Gwella deilliannau Safon Uwch gan gynnwys cydweithio â'r coleg.
- Gwella deilliannau ar gyfer cymwysterau newydd yng Nghyfnod Allweddol 4.
- Gwella deilliannau mewn gwyddoniaeth, technoleg (yn enwedig codio a chyfrifiadureg), peirianneg a mathemateg (pynciau STEM) ar gyfer disgyblion o bob oed a rhyw.

1.2 Lles

Crynodeb

- Gwnaed cynnydd da i hyrwyddo bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol yn ysgolion Abertawe gyda'r holl ysgolion yn rhan o'r cynllun Ysgolion Iach.
- Darperir brecwastau iach, am ddim yn yr holl ysgolion cynradd (ac eithrio un ysgol) a chynigir cinio canol dydd maethlon, cytbwys yn unol â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013. Mae sQuid, system talu ar-lein, yn cael ei chyflwyno er mwyn i'r holl ysgolion alluogi rhieni i dalu ar-lein am brydau ysgol a thaliadau eraill e.e. gwibdeithiau ysgol, gwisg ysgol etc.
- Mae presenoldeb wedi gwella'n gyson, ac mae gweithdrefnau atgyfeirio sefydledig wedi'u gwreiddio i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael a materion lles.
- Gwnaed cynnydd gwerth chweil rhwng ysgolion a phartneriaid i gefnogi disgyblion mewn perygl o gael eu bwlio a dioddef hunan-barch isel.
  - Mae nifer y gwaharddiadau parhaol yn Abertawe'n dal i fod yn isel, er y cafwyd cynnydd yn y sector uwchradd yn 2016-2017. Cafwyd cynnydd hefyd yn nifer y disgyblion a waharddwyd, y diwrnodau a gollwyd a nifer y gwaharddiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae amrywiad sylweddol rhwng ysgolion. Serch hynny, mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o ysgolion uwchradd yn Abertawe wedi bod yn is na chyfradd Cymru gyfan ac wedi lleihau ar gyfradd debyg i Gymru dros y tair blynedd diwethaf. Mae Abertawe yn y 10fed safle, sydd cryn dipyn yn well nag unrhyw awdurdod lleol trefol arall. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol chwe diwrnod neu fwy wedi gwella i fod yr un peth â chyfradd Cymru, sydd bellach yn y 9fed safle (roedd yn 15fed yn flaenorol).

- Gwneir cynnydd boddhaol gyda disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd i brofi cyfleoedd symud sydd wedi'u rheoli'n dda.
- Mae rhaglen flaengar o gyfleoedd chwaraeon allgyrsiol ar waith, wedi'i chyflwyno gan yr awdurdod lleol a phartneriaid ehangach.
- Mae tîm blaengar, uchel ei barch Pobl Ifanc Actif Abertawe wedi datblygu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol allgyrsiol ym mhob cymuned. Mae nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan yn y fenter 'Gwirioni ar Chwaraeon' wedi cynyddu o 44% (yn 2013) i 48% (yn 2015). Cynhelir yr arolwg chwaraeon mewn ysgolion nesaf yn ystod tymor yr haf 2018.
- Mae Pobl Ifanc Actif Abertawe wedi rhoi offeryn asesu ar waith ar gyfer llythrennedd corfforol ochr yn ochr â phrosiect sefydledig o'r enw Swan-Linx a fydd yn ymchwilio i iechyd, ffitrwydd, maeth a gweithgarwch corfforol tua 3,000 o blant ym mlynyddoedd 5 a 6.
- Mae 8,000 o ddysgwyr yn ymwneud â'r Gwasanaeth Cerdd i Ysgolion sy'n darparu ffyrdd blaengar i ysgogi gweithgarwch drwy gerddoriaeth a chyfranogiad yng Nghelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ac ensembles sirol, consortia a chenedlaethol.
- Cefnogir yr holl benaethiaid ac uwch-arweinwyr i gynnal asesiadau risg Iechyd a Diogelwch yn ôl y galw. Darperir archwiliadau i helpu i flaenoriaethu materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy mewn modd effeithiol a'u cynnwys mewn cynlluniau datblygu ysgol i fonitro cynnydd.
- Mae'r awdurdod lleol yn darparu cyngor ac arweiniad i'r holl ysgolion a llywodraethwyr i adolygu asesiadau risg, diogelwch safleoedd a rheoli risg tân. Darparwyd arweiniad newydd ar weithdrefnau atal mynediad i'r holl ysgolion yn Abertawe. Mae hyn yn cynnwys templed gweithdrefn i'w addasu i fodloni gofynion adeiladau, sy'n annog ysgolion i roi gweithdrefnau ymarfer ar waith yn rheolaidd.
- Gall yr holl staff gael mynediad i hyfforddiant rheoli straen a'u hatgyfeirio i wasanaethau cwnsela, gyda mynediad i gydweithwyr sydd ar gael i roi cyngor ac arweiniad i staff.
- Ceir gweithio ar y cyd blaengar gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ym maes cyfranogiad ac eir i'r afael â mynediad i gyfleoedd ar draws y ddinas drwy bartneriaethau sy'n cynnwys rhaglen Aelodaeth Iau Abertawe Actif, Swyddog Chwaraeon Cymru BME, a phrosiectau Chwaraeon Stryd Abertawe, Girls4Sport ac Us Girls.
- Cynrychiolir y Gwasanaethau Cymdeithasol ar bob panel Addysg mewn Lleoliad Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), sy'n caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu a hefyd yn sicrhau ein bod wedi defnyddio cyfleoedd atal ar gyfer sefyllfa'r teulu yn ogystal ag o safbwynt addysgol.
- Sefydlwyd Canolfan Cam-drin Domestig, sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o bartneriaid e.e. y Gwasanaethau Pobl Ifanc a gweithwyr Ray. Cynhelir gwaith grŵp ar berthnasoedd iach gydag ysgolion penodol a gwirfoddol. Ymgymerir â'r gwaith hwn fel rhan o'r rhaglen Ecwilibriwm sy'n seiliedig ar fodiwlau er priodoldeb ar gyfer pobl ifanc a dargedir.
- Lleolwyd Swyddog Lles Addysg yn ddiweddar yn y Ganolfan Cam-drin Domestig i wella arfer rhannu a chyflwyno ymyriadau i deuluoedd y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt.

Meysydd i'w datblygu

- Datblygu strategaeth i gefnogi a chynorthwyo ysgolion i ymdrin â'r holl achosion o fwlio. Dylai hyn gynnwys recordio a monitro'r holl ddigwyddiadau ac ymagwedd gydlynol at sut ymdrinnir â digwyddiadau.
- Lleihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a mynd i'r afael ag amrywiad mewn ysgolion.
- Gwella ymhellach gyfraddau integreiddio o Unedau Cyfeirio Disgyblion.
- Adolygu cynnydd y cytundeb symudiad wedi'i reoli a gwreiddio ymhellach y strategaethau i gefnogi disgyblion sy'n manteisio ar gyfle symudiad wedi'i reoli.
- Parhau â mecanweithiau Fforwm Llais y Disgybl, yr Arolwg Mawr a'r Sgwrs Fawr ac edrych ar gyfleoedd i ystyried barn grŵp ehangach o ddysgwyr gan gynnwys disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar draws Cyngor Abertawe.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

2.1 Cefnogaeth i wella ysgolion

Crynodeb

- Yn gyffredinol o ran perfformiad, mae trefniadau da ar waith i gefnogi, herio ac ymyrryd mewn ysgolion. Nodir bron pob achos o danberfformiad a bron pob ffactor risg mewn ysgolion yn gyflym ac eir i'r afael â hwy'n gyflym. Fodd bynnag, mewn ambell achos, mae argymhellion a wneir gan arolygwyr yn amrywio o'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan yr ymgynghorwyr herio.
- Nid oes unrhyw ysgol uwchradd mewn categori statudol ac mae cyfran yr ysgolion cynradd mewn categori statudol yn 2015-2016 islaw'r ganran genedlaethol sef 4%. O'r holl ysgolion cynradd a arolygwyd yng Nghymru rhwng 2013 a 2016, mae Abertawe'n rhagori ar y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer bron pob un o brif farnau Estyn. O'r holl ysgolion uwchradd a arolygwyd yng Nghymru rhwng 2013 a 2016, mae gan Abertawe'r ail broffil gorau yng Nghymru ar gyfer holl brif farnau Estyn.
- Ymgymerir â'r system gategoreiddio genedlaethol yn gyson ym mron pob ysgol. O ganlyniad, mae cyfran gynyddol o ysgolion cynradd gwyrdd a melyn, gydag 84% o ysgolion cynradd yn y categorïau hyn yn 2016 o'i chymharu â 74% yn 2014. Mae gan ysgolion uwchradd allu cryf i wella yn y rhan fwyaf o achosion, ac maent wedi cynnal hyn dros gyfnod hir gydag ychydig iawn o gefnogaeth neu ymyriad. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd yn Abertawe yn dangos tystiolaeth o allu cryf i hunanwella yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae canlyniadau Estyn o ran y rhagolygon ar gyfer gwella yn ystod y cylch arolygu diwethaf yn dangos bod y rhan fwyaf o ysgolion naill ai'n dda neu'n ardderchog.
- Caiff ffactorau risg ychwanegol mewn ysgolion eu hystyried yn drylwyr. O ganlyniad, darperir cefnogaeth ddwys yn effeithiol i atal ysgolion rhag dirywio. Mae ymagwedd Tîm am yr Ysgol (TAY) yn datblygu'n dda lle darperir ymyriad a chefnogaeth ddwys i ysgolion lle ceir risg.
- Mae ymateb cydlynol a gweddol gyson i gefnogi ysgolion y mae angen ymweliadau dilynol arnynt gan Estyn. Mae'r gyfradd wella'n gryf neu'n dda iawn bron ym mhob ysgol. Mae'r gyfradd wella gydag ysgolion sydd wedi cael ymweliadau dilynol wedi gwella o'i chymharu â'r gyfradd yn ystod arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol yn 2013.

- Mae herio safonau'n gyson, trwy ddadansoddi data a deialog heriol ar dargedau, arweinyddiaeth a darpariaeth, yn darparu gwerthusiadau trwyadl o bron pob ysgol. O ganlyniad, mae dealltwriaeth a throsolwg cytunedig o feysydd blaenoriaeth ysgolion.
- Cesglir a lledaenir arfer effeithiol mewn ysgolion yn ddigonol fel y gall ysgolion ddatblygu eu rhwydweithiau rhyng-ysgol er mwyn gwella. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i sicrhau ymagwedd gyson a mynediad i'r storfa ar gyfer yr holl ysgolion.
- Nid yw'r broses casglu targedau ysgol ffurfiol wedi bod yn gadarn. Ystyrir targedau meintiol ysgolion unigol ar gyfer gwelliant yn ofalus yn ystod ymweliadau craidd gan ymgynghorwyr herio. Mae protocol rhanbarthol newydd ar gyfer casglu targedau wedi'i rannu â chyfarwyddwyr. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i wreiddio eto mewn ysgolion.
- Mae gwerthusiad ysgrifenedig addas o lwyddiant pob ysgol wrth fynd i'r afael ag argymhellion a meysydd perfformiad allweddol. Mae'r holl feysydd hyn yn cael eu monitro i fesur cynnydd yn erbyn deilliannau disgyblion.
- Darperir mwy o her i ysgolion lle mae cyflymder y broses wella'n rhy araf. Fodd bynnag, mewn ambell ysgol, mae'r gwerthusiad o gynnydd yn rhy hael ac nid yw'n ystyried safonau gwell i ddysgwyr.
- Mae sgyrsiau cryfach am berfformiad grwpiau o ddysgwyr a'r defnydd o arian grant, er enghraifft y Grant Amddifadedd Disgyblion, yn datblygu'n dda. Serch hynny, mae angen mwy o gysondeb wrth fonitro sut mae ysgolion yn gwario'r holl arian grant ac yn arbennig, y Grant Gwella Addysg.
- Mae pob ysgol yn deall yn llwyr fod y gefnogaeth yn gymesur ag angen a bod ysgolion sy'n tanberfformio'n derbyn mwy o gefnogaeth a her. Mae gwahaniaethu a diffiniad clir yn y gefnogaeth, yr her a'r ymyriad a roddir i ysgolion, fel yr amlinellir yn yr Ysgol Cefnogi, Herio ac Ymyrryd y cytunwyd arni'n rhanbarthol.
- Mae ymweliadau monitro y sicrhawyd eu hansawdd yn ystod yr hydref 2016 yn dangos lefel briodol o her ym mron pob ysgol. Fodd bynnag, mae angen mwy o gysondeb mewn adroddiadau monitro i sicrhau cyngor clir, cryno a defnyddiol.
- Mae adborth ffurfiol ac anffurfiol gan benaethiaid yn dangos bod mwy o her gadarn ar gyfer gwella nag a fu pan arolygwyd yr awdurdod lleol ddiwethaf yn 2013. Serch hynny, dywed adborth penaethiaid wrthym nad yw'r gefnogaeth y mae ei hangen arnynt bob amser yn cael ei rhoi ar yr adeg gywir iddynt, ac nid ydynt yn cydweithio ag ysgolion eraill.
- Sicrheir ansawdd samplau o ymweliadau monitro, yn y fan a'r lle, yn effeithiol i wella cysondeb cefnogaeth a her ymhellach. Sicrheir ansawdd adroddiadau monitro yn effeithiol hefyd, a rhoddir adborth i ymgynghorwyr herio ar unwaith. Mewn ambell achos, mae angen cryn dipyn o sicrhau ansawdd i sicrhau bod adroddiadau'n addas i'r diben.
- Mae'r Prif Swyddog Addysg yn sicrhau her dda i ysgolion y mae angen y gefnogaeth fwyaf arnynt i wella drwy roi ystyriaeth reolaidd iddynt ar fwrdd yr arweinwyr strategol. Mae'r Pennaeth Gwella Addysg ac ymgynghorwyr herio arweiniol yn cyflymu gwelliant lle bo'r angen.
- Darperir cefnogaeth effeithiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, datblygu cymhwysedd digidol, llythrennedd a rhifedd, Cymraeg, Cymraeg (ail iaith), Saesneg a Mathemateg, asesu a chymedroli, datblygu arweinyddiaeth, ieithoedd tramor modern ac athrawon newydd gymhwyso. Mae gwell darpariaeth i gefnogi deilliannau llythrennedd a gwyddoniaeth ym mhob cyfnod. Darperir cefnogaeth addas ar gyfer pynciau craidd mewn ysgolion uwchradd gan y tîm canolog

rhanbarthol. Mae cynyddu'r broses hwyluso ymarferwyr gorau i gyflwyno cefnogaeth yn datblygu'n dda.

- Mae cynnig dysgu proffesiynol priodol ar gael i'r holl ysgolion i gefnogi gwell arweinyddiaeth, addysgu a chefnogaeth i ddysgwyr. Serch hynny, tan yn ddiweddar, nid yw'r cydlynu wedi bod yn effeithiol.
- Mae cefnogaeth ar gyfer llythrennedd yn effeithiol wrth godi safonau darllen ar draws pob cyfnod. Ceir tystiolaeth o hyn yn y gwelliannau yn neiliannau'r profion darllen cenedlaethol yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- Mae cefnogaeth ar gyfer llythrennedd ac iaith mewn ysgolion Cymraeg yn effeithiol a gellir gweld hyn yn y gwelliant parhaus a geir yng nghanlyniadau Cynllun Strategol y Gymraeg yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- Mae cefnogaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ddigonol gan fod gormod o ysgolion yn Abertawe wedi derbyn argymhelliad i wella darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod tair blynedd diwethaf. Mae gweithgarwch monitro'n dilyn ymweliadau gan swyddogion hefyd yn dangos nad yw athroniaeth y Cyfnod Sylfaen mor gyson.
- Mae'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion yn gliriach ac y mae'r holl randdeiliaid yn dechrau ei deall. Mae gwerthusiadau crynodol o ddigwyddiadau hyfforddiant a gyflwynir gan yr awdurdod lleol yn dangos gwerthusiad cadarnhaol o 75%.
- Mae cefnogaeth ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu'n ddefnyddiol. Darperir arsylwi uniongyrchol â ffocws ar addysgu i gefnogi ysgolion â'u gwaith monitro eu hunain. Rhoddir cyngor cadarn hefyd ar ddilysu dulliau presennol mewn ysgolion i wella addysgu lle bo'r angen. Defnyddir ymarferwyr gorau i gyflwyno hyfforddiant a dulliau addysgu'n effeithiol.
- Yn y rhan fwyaf o achosion, mae pecynnau cefnogi pwrpasol, wedi'u trefnu'n dda ar gyfer gwella ysgolion, yn dechrau cael effaith mewn ysgolion y mae angen cefnogaeth fynych a dwys arnynt ar gyfer meysydd y cwricwlwm.
- Targedir hyfforddiant yn effeithiol, yn ôl angen. O ganlyniad, mae cefnogaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn mynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth allweddol, er enghraifft, ysgrifennu bechgyn a gweithrediadau rhif pendant. Darperir ambell ddigwyddiad i bob ysgol gan ddarparwyr allanol. Nid yw'n glir a yw'r digwyddiadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau.
- Lledaenir arfer effeithiol yn briodol drwy nodi astudiaethau achos dysgu proffesiynol.
- Mae cefnogaeth ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid gweithredol yn gwella. Mae'r awdurdod lleol yn ddiweddar wedi cyhoeddi rhaglen ddefnyddiol o weithdai rheoli sydd ar gael i uwch-arweinwyr newydd. Mae'r rhaglen yn ategu'r cynnig dysgu proffesiynol gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol (ERW) ac mae'r awdurdod lleol (ALl) yn canolbwyntio ar feysydd megis cyllid, iechyd a diogelwch.
- Mae rhaglen datblygu uwch-arweinwyr ysgol werthfawr yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi cynhyrchu nifer mawr o ymgeiswyr o safon ar gyfer swyddi penaethiaid yn y dyfodol.
- Mae llywodraethwyr yn derbyn cefnogaeth ddefnyddiol ar gyfer eu rôl er mwyn egluro safonau. Nid yw llywodraethwyr fel arfer yn bresennol mewn ymweliadau monitro ac fe'u hanogir gan ymgynghorwyr herio i fod yn rhan o'r ddeialog broffesiynol ar wella ysgolion. Mae hyn wedi arwain at well dealltwriaeth o gryfderau a meysydd i'w gwella.
- Mae llywodraethwyr yn derbyn cyngor defnyddiol gan ymgynghorwyr herio wrth recriwtio uwch-arweinwyr yn eu hysgolion.

- Ar hyn o bryd, mae uwch-arweinwyr yn gweithio'n effeithiol ar draws ysgolion i fonitro, cynghori a rhannu arfer gorau, fel ymgynghorwyr herio cefnogol.
- Mae ysgolion yn derbyn cefnogaeth o safon ar gyfer prosesau hunanwerthuso a chynllunio strategol drwy adborth blynyddol.
- Nodir a chofnodir cryfderau a meysydd i'w datblygu ym maes arweinyddiaeth yn glir yn ystod ymweliadau monitro. Mae hyn yn cynnwys ffocws cryf ar uwch-arweinwyr ac arweinwyr canol.
- Mae bron pob pennaeth yn deall y meysydd her drwy adborth ar eu prosesau hunanwerthuso a chynllunio strategol. Mae hyn yn dod yn gynyddol lwyddiannus oherwydd ymagwedd fwy cyson gan ymgynghorwyr herio.
- Darperir cefnogaeth ar gyfer arweinyddiaeth yn llwyddiannus drwy ymgynghorwyr herio sy'n gallu cael mynediad i nifer o raglenni drwy gydweithwyr awdurdod lleol a rhanbarthol. Mae hyn bellach yn cynnwys mwy o gefnogaeth uniongyrchol o ysgol i ysgol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn y rhaglen Her Ysgolion Cymru estynedig lle mae ysgolion a chanddynt arweinwyr sy'n perfformio'n wych yn cefnogi penaethiaid ac uwch-arweinwyr mewn ysgolion eraill ar draws y rhanbarth.
- Cydlynir rhwydwaith gwerthfawr o uwch-arweinwyr uwchradd ac arweinwyr pwnc uwchradd mewn partneriaeth ag ysgolion.
- Dadansoddir anghenion cefnogaeth yn briodol mewn ymgynghoriad ag ysgolion i sicrhau bod y gefnogaeth yn canolbwyntio ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol presennol.
- Cyflwynir rhaglen arweinyddiaeth ganol, ranbarthol, llwyddiannus gan arweinwyr o ysgolion Abertawe.
- Mae ysgolion dysgu proffesiynol yn darparu cefnogaeth addas i gymheiriaid yn yr awdurdod lleol a'r tu allan iddo.
- Mae'r adborth mwyaf diweddar ar waith yr ymgynghorwyr herio'n dangos bod y rhan fwyaf o benaethiaid yn Abertawe'n cytuno bod y broses gategoreiddio'n cael ei chyflwyno'n effeithiol. Mae llawer yn cytuno bod y gefnogaeth maent yn ei derbyn yn bodloni eu hawl a theimlai llawer o benaethiaid y darparwyd dewis o gefnogaeth perthnasol. Cred llawer o benaethiaid fod gwaith o ysgol i ysgol yn datblygu'n dda yn y rhanbarth. Roedd lleiafrif bach o benaethiaid Abertawe'n meddwl bod ansawdd yr ymweliadau gan ymgynghorwyr herio'n fwy negyddol na chadarnhaol.
- Mae canlyniadau arolygiadau ar gyfer llawer o ysgolion uwchradd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn neilltuol. Mae canlyniadau arolygiadau ar gyfer ysgolion cynradd yn Abertawe ar gyfer hanner olaf y cylch arolygu diwethaf yn dangos bod gan lawer o ysgolion safonau a rhagolygon ar gyfer gwella da neu ardderchog. Mae cydberthyniad priodol rhwng canlyniadau arolygiad a gwaith monitro'r ymgynghorwyr herio.
- Mae ansawdd y rhan fwyaf o adroddiadau a chynlluniau a gyflwynir i Estyn gan yr awdurdod lleol yn dda. Serch hynny, dengys rhai adroddiadau werthusiadau mwy cadarnhaol na'r hyn a awgrymwyd gan y dystiolaeth sydd ar gael yn yr ysgol. Dengys y rhan fwyaf o adroddiadau cyn arolygiadau gydweddiad da â chanlyniadau terfynol arolygiadau.
- Mae ymgynghorwyr herio'n ystyried lles yn dda drwy eu gwaith wrth herio presenoldeb yn ystod ymweliadau craidd. Mae mwy o her yn awr i ysgolion sy'n gallu gwella presenoldeb. Ystyrir cynnydd disgyblion yn ofalus i sicrhau bod ysgolion yn olrhain cyflawniadau ac yn ystyried natur ddiamddiffyn plant unigol.
- Mae'r awdurdod lleol bellach yn nodi anghenion datblygu uwch-arweinwyr, arweinwyr canol a gweithredol mewn modd trefnus i sicrhau cynaladwyedd. O

ganlyniad, mae rhaglenni ar gael i ddatblygu arweinyddiaeth yn unol â diwygio'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Arweinir y rhaglenni arweinwyr dyheadol yn Abertawe gan y sector ac mae'n arwain y sector yn y rhanbarth.

- Cyflwynir blaenoriaethau cenedlaethol mewn modd cynhwysfawr a phwrpasol. Mae swyddogion yn Abertawe'n gweithio'n briodol gyda swyddogion rhanbarthol i gyflwyno cefnogaeth o safon ar gyfer llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, ffocws ar addysgeg o gofio'r ffaith fod y cwricwlwm yn cael ei ddiwygio, safonau proffesiynol newydd a chymwysterau newydd.
- Mae'r arweiniad ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn glir ac yn ddealladwy. Caiff y defnydd effeithiol o arian grant ei fonitro'n agos i sicrhau bod disgyblion prydau ysgol am ddim yn cael tegwch ac ymyriad lle bo'r angen. Fodd bynnag, mae angen monitro agos i sicrhau nad yw'r blychau mewn cyrhaeddiad yn ehangu ar draws yr awdurdod lleol.
- Cefnogir dysgu ac addysgu'n dda gan swyddogion yn yr awdurdod lleol a thrwy gynnwys partneriaid cyflwyno allweddol yn ein consortiwm, er enghraifft, gwell marcio effeithiol, gwell darllen ac ysgrifennu a defnyddio technoleg yn effeithiol i wella profiadau dysgu. Mae adborth gan benaethiaid yn dweud wrthym fod angen mwy o gefnogaeth i ddatblygu sgiliau mewn gwyddoniaeth a gwell agweddau at ddysgu. Mae ein harsylwadau ein hunain yn dweud wrthym fod angen gwella darpariaeth y Cyfnod Sylfaen mewn lleiafrif o ysgolion.
- Adolygwyd Cytundeb Partneriaeth yr Awdurdod Lleol/Ysgolion yn unol â gofynion statudol ac fe'i rhannwyd ag ysgolion.
- Mae ansawdd y data a ddarperir i ysgolion yn uchel. Mae crynodebau a dadansoddiadau data'n galluogi ysgolion i ddeall eu meysydd i'w datblygu a chymharu ag ysgolion eraill. Defnyddir proffiliau asesu bod yn agored i niwed yn dda gan ysgolion i gynllunio gwell darpariaeth. Dywed adborth penaethiaid wrthym fod yr ehangder o ddata a ddarperir yn gallu bod yn llethol ar adegau.

Meysydd i’w datblygu

- Parhau i sicrhau y cyflawnir gwerth am arian gan nad oes ysgolion na darpariaethau yn y categori statudol a chynyddu cyfran yr ysgolion sydd fwyaf addas ar gyfer nodweddion A a B ar gyfer arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu (gan ddefnyddio'r system gategoreiddio genedlaethol).
- Sicrhau bod yr holl ysgolion yn cael eu herio'n gadarn, y cytunir ar gefnogaeth addas a'i chyflwyno er mwyn gwella deilliannau.
- Darparu mwy o gefnogaeth ar gyfer cymhwysedd digidol, gwyddoniaeth a llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen.
- Sicrhau bod defnydd ysgolion o'r Grant Gwella Addysg i gefnogi dysgu proffesiynol yn cael ei fonitro'n well.
- Gwella cyrhaeddiad disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 4 drwy sicrhau bod cefnogaeth dda ar gyfer addysgu ac asesu yn y Cyfnod Sylfaen, a bod cefnogaeth dda i ysgolion mewn cymwysterau pynciau craidd.
- Gwell perfformiad dysgwyr ePYDd drwy sicrhau bod yr holl ysgolion yn defnyddio'u grant i godi safonau.
- Sicrhau mwy o fanylrwydd wrth sicrhau bod ysgolion yn derbyn y gefnogaeth a addawyd iddynt yn ystod ymweliadau craidd a bod cefnogaeth a dargedir yn dda i ysgolion yn ogystal â chyfleoedd hyfforddiant cyffredinol am ddim er mwyn iddynt wella.

- Parhau i gefnogi ysgolion i baratoi ar gyfer newidiadau i gymwysterau, er enghraifft, trosglwyddo o wyddoniaeth BTEC a sicrhau darpariaeth addas er mwyn cefnogi gwyddoniaeth mewn ysgolion cynradd.
- Sicrhau cefnogaeth o safon ar gyfer cymhwysedd digidol o ystyried archwiliadau sgiliau staff ac offer mapio a luniwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Datblygu mwy o ymwybyddiaeth ar draws y system o ddiwygio'r cwricwlwm yn barod ar gyfer Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes. Cwricwlwm am Oes drwy sicrhau bod y cwricwlwm diwygiedig ar gyfer 2018 ar waith erbyn 2022.
- Parhau i hyrwyddo ymagwedd gyson at gymhwysedd digidol fel bod cymunedau dysgu o fewn yr ysgol yn fwy effeithlon ac y rhennir arfer effeithiol mewn modd trefnus.
- Cynyddu lefel y gefnogaeth o ysgol i ysgol, er enghraifft, defnyddio arweinwyr cryf ac ymarferwyr gorau i gyflwyno digwyddiadau hyfforddiant neu weithio gydag ysgolion sy'n peri pryder.
- Sicrhau y cyflwynir digwyddiadau datblygu arweinyddiaeth gan arweinwyr hynod effeithiol, er enghraifft, nodwyd bod angen cyflwyno cefnogaeth i ddeuddeng ysgol yn Abertawe.
- Parhau i weithio gyda llywodraethwyr mewn ysgolion sy'n peri pryder i gyflymu gwelliannau a gwella gallu llywodraethwyr i alw ysgolion i gyfrif.
- Sicrhau bod y gefnogaeth ar gyfer penaethiaid newydd a gweithredol wedi'i chydlynu'n dda fel bod gan ysgolion ddigon o allu i wella.

2.2 Cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

Crynodeb

- Mae gan yr ALl y gyfran fwyaf o blant a phobl ifanc â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Mae gor-ddibyniaeth ar y broses hon i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY sy'n anghynaladwy pan gaiff Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ADYTA) ei roi ar waith.
- Mae nifer y plant a'r bobl ifanc a chanddynt anghenion difrifol a chymhleth, gan gynnwys Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA), yn cynyddu ac mae galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol.
- Er gwaethaf y ffaith fod amrywiaeth priodol o ddarpariaeth a phrosesau ar waith i nodi anghenion, mae angen mwy o waith i wella hyder ysgolion a rhieni yn y cynnig a wnaed gan yr ALl. O ganlyniad, mae nifer mawr o apeliadau tribiwnlys a cheisiadau am asesiad statudol.
- Mae angen i'r ALl wneud mwy o waith i ddatblygu dadansoddi data, olrhain a monitro cynnydd disgyblion i sicrhau ansawdd y dysgu a'r addysgu a bod effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn cael ei werthuso'n briodol.
- Mae angen diwygio dogfennau polisi a strategaeth yr ALl sy'n gysylltiedig ag angen ADY o gofio am y Bil ADYTA. Mae hyn yn cynnwys diwygio'r Strategaeth a'r Cynllun Hygyrchedd.
- Mae angen gwneud mwy o waith i ddatblygu Strategaeth Lles ac Ymddygiad a fframwaith i fonitro a gwerthuso lles.
- Mae'r awdurdod yn cydymffurfio â'r deddfau amrywiol ac yn rhagweithiol yn lleol ac yn rhanbarthol wrth roi'r Bil ADYTA ar waith. Mae cysylltiadau cydweithio â phenaethiaid, rhieni a gofalwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill, megis y

Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ogystal â'r trydydd sector, yn gwella fel rhan o strategaeth yr awdurdod lleol ar gyfer ADY.

- Mae'r ALl yn gwneud gwaith da i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu nodi a'u diwallu, ac y darperir ar eu cyfer. Mae'r ALl yn gwneud gwaith da wrth fonitro'r galw am ddarpariaeth a chysylltu â chydweithwyr i sicrhau y cynllunnir darpariaeth briodol i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.
- Mae gan Gyngor Abertawe gysylltiadau da, a rhai sy'n gwella, â gwasanaethau iechyd megis iaith a lleferydd a'r gwasanaeth paediatreg cymunedol. Mae gwell cydweithio ar lefel strategol i greu mwy o gydweithredu ar draws asiantaethau fel bod mentrau wedi'u cysylltu'n well.
- Mae cysylltiadau da, a rhai sy'n gwella, ag Ymgynghorwyr Herio ac arbenigwyr perfformiad sy'n canolbwyntio'n arbennig ar olrhain cynnydd disgyblion a gwerthuso ansawdd y dysgu a'r addysgu mewn darpariaeth arbenigol. Mae cysylltiadau rhanbarthol sy'n ymwneud â defnyddio'r Gronfa Arloesedd i ddarparu ymagwedd gydlynol ar draws y rhanbarth yn gwella.
- Mae amrywiaeth da o weithgareddau hyfforddi ac adeiladu gallu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws yr awdurdod sy'n canolbwyntio ar ymyrryd ac atal cynnar sy'n cael effaith ar ba mor barod yw plant i fynd i'r ysgol a datblygiad iaith yn y blynyddoedd cynnar, yn ogystal â rheoli a lleihau ymddygiad heriol.
- Mae'r prosesau ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â datblygu polisi a strategaeth gan ddefnyddio prosesau adolygu comisiynu'n gwella. Mae'r prosesau cynnwys bellach yn dda.
- Mae timau arbenigol gan gynnwys tiwtora gartref yn darparu cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd ag amrywiaeth o anghenion ac mae disgyblion yn cyflawni deilliannau da.
- Mae prosesau ac arweiniad y Panel ADY ar ddechrau asesu statudol a therfynu cynnal datganiad yn gadarn, yn deg ac yn gyfartal.
- Mae ystod da o ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion corfforol a chymhleth yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl drwy ein UCD a'n Cyfleusterau Addysgu Arbenigol. Fodd bynnag, nid oes digon o leoedd ar gael, yn enwedig i'r rhai ag Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog (ADDLl) ac Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA). Mae swyddog Cyswllt Teulu effeithiol sy'n gweithio'n dda iawn gyda rhieni a gofalwyr. Ceir cefnogaeth dda gan y sefydliad SNAP (Anghenion Arbennig a Rhieni) Cymru sy'n darparu gwasanaethau cynrychiolaeth, datrys anghydfod cefnogaeth ac eiriolaeth i deuluoedd.
- Mae cysylltiadau'n â Choleg Gŵyr Abertawe, yn enwedig o ran rhoi Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar waith, ac mae'r Coleg yn cael cefnogaeth i ddatblygu rôl ei Gydlynydd ADY.

Meysydd i'w datblygu

- Datblygu strategaeth lles ac ymddygiad newydd a'i rhoi ar waith
- Datblygu polisi a strategaeth ADY newydd a'u rhoi ar waith.
- Gwella hyder ysgolion a rhieni yn y cynnig a wneir gan yr ALl.
- Gwerthuso ansawdd y dysgu a'r addysgu ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth drwy ddatblygu ymhellach ddulliau dadansoddi data, olrhain a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

2.3 Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles

Crynodeb

- Mae system effeithiol o hyfforddiant diogelu a chefnogaeth wedi'i hen sefydlu mewn ysgolion, yn yr adran ac ar draws yr awdurdod lleol.
- Mae systemau hynod effeithiol ar waith i hybu cynhwysiad cymdeithasol a lles.
- Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i hybu presenoldeb wedi'u cefnogi gan ddadansoddiad data hynod effeithiol a defnyddir gweithdrefnau adrodd yn effeithiol i dargedu cefnogaeth ar gyfer gwell presenoldeb i'r holl ddysgwyr.
- Mae darpariaeth EOTAS (Addysg Mewn Lleoliad Heblaw'r Ysgol) Abertawe yn parhau i fod yn amrywiol. Cyflymodd cynnydd yn yr UCD yn 2016-2017 ac mae'n gyffredinol briodol.
- Mae galw parhaol am ddarpariaeth EOTAS mewn ysgolion cynradd ac yng Nghyfnod Allweddol 3. Galw am ddarpariaeth EOTAS yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi lleihau yn 2016-2017.
- Mae'r defnydd o ddata ar gyfer pennu targedau ac olrhain cynnydd dysgwyr, gan gynnwys monitro ymyriadau, yn anghyson ar draws darpariaeth yr UCD ac, o ganlyniad, nid yw rhai dysgwyr yn cyrraedd eu potensial.
- Mae'r gostyngiad yn nifer y bobl ifanc NEET yn Abertawe wedi'i gydnabod yn genedlaethol fel arfer gorau. Yn 2016, gwelodd Abertawe ei ffigur isaf erioed am bobl ifanc sy'n NEET yn 16 oed ac am y 7fed blwyddyn yn olynol llwyddodd i ganfod ym mha le roedd 100% o'r garfan a oedd wedi gadael Blwyddyn 11.
- Defnyddiodd Adolygiad Comisiynu'r Continwwm Cymorth i Deuluoedd ymagwedd flaengar at fapio gwasanaethau ar draws modelau Ymateb Fesul Cam a Chontinwwm Anghenion ysgolion. Mae hyn wedi darparu cyfle i fapio gwasanaethau mewn modd cryf ac effeithiol, gan alluogi mwy o newidiadau ac integreiddio.
- Cryfhawyd nodi anghenion disgyblion yn gynnar drwy integreiddio gwell offeryn Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed i'w ychwanegu at y fformat gwreiddiol, yn seiliedig ar fapio gwasanaethau. Mae hyn yn hybu'r gwaith o olrhain anghenion ac ymyriadau'n effeithiol o safbwynt ysgolion, atal a statudol.
- Mae'r Gwasanaeth Pobl Ifanc wedi datblygu ymagwedd Arwyddion Lles flaengar a'i rhoi ar waith. Mae hyn yn darparu model hynod effeithiol a chryf iawn o nodi anghenion diogelu a chynllunio integredig. Mae'n ategu'r ymagwedd Arwyddion Diogelwch a ddefnyddir gan y timau statudol, gan ddarparu gweithdrefnau diogelu cryf a chadarn rhwng y gwasanaeth a'r timau gwaith cymdeithasol statudol.

Meysydd i’w datblygu

- Ehangu'r defnydd o ddata i dargedu ysgolion lle mae nifer mawr o waharddiadau cyfnod penodol.
- Lleihau eto'r galw am ddarpariaeth EOTAS a chynyddu gallu mewn ysgolion i reoli anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol trwy rannu arfer da'n fwy effeithiol.
- Gwella ansawdd darpariaeth UCD Abertawe ymhellach a sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cyrraedd eu potensial.
- Rhoi rhaglen hyfforddiant Amddiffyn Plant amlasiantaeth ar waith i fynd i'r afael â gofyniad Estyn am arweinwyr a dirprwyon amddiffyn plant dynodedig i gyflawni hyfforddiant lefel 2.

- Gwella dealltwriaeth staff allweddol ysgolion o faterion amddiffyn plant/diogelu ehangach megis camfanteisio'n rhywiol ar blant, radicaleiddio etc.
- Lleihau nifer y bobl ifanc 11 i 16 oed sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg na hyfforddiant (NEET) drwy adolygu effaith prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop Cynnydd (CGE) i ganfod a datrys y problemau allweddol sy'n rhwystro mwy o gynnydd ac i gyfeirio cynlluniau cyflwyno'r dyfodol.
- Datblygu cynlluniau i leihau'r amser cyfartalog y mae person ifanc yn NEET.
- Adolygu Cynllun Gweithredu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i sicrhau cynnydd ac adlewyrchu blaenoriaethau presennol ar draws y Gyfarwyddiaeth Pobl.

2.4 Mynediad a lleoedd ysgol

Crynodeb

- Mae strategaeth gydlynol hir dymor ar gyfer darpariaeth ysgol sy'n gyson â'r Rhaglen Amlinellol Strategol wreiddiol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynigion Band B presennol yn adlewyrchu datblygiad naturiol y strategaeth hon.
- Mae ein prosesau rhagfynegi disgyblion yn gadarn ac yn hen sefydledig. Cynhyrchir ystadegau cymharol bob blwyddyn fel rhan o grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol CCAC ac mae data Abertawe'n cymharu'n ffafriol â data cymharol ar draws awdurdodau eraill. Creffir ar ragamcaniadau a chânt eu trawswirio a'u rhannu'n fewnol yn erbyn data cyflenwol megis yr hyn sydd ar gael drwy'r asesiad Addysg Gymraeg.
- Mae fframwaith asesu cynhwysfawr yn sail i'r cynllunio, ac roedd hwn wedi cyfeirio Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) cymeradwy'r awdurdod ac o ganlyniad, caiff anghenion presennol a rhai'r dyfodol eu blaenoriaethu'n gadarn. Mae effaith bosib y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a strategaethau a pholisïau cenedlaethol a lleol hefyd yn cyfeirio'r blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf a nodwyd ynghyd â chynigion trefniadaeth ysgol.
- Cymerwyd camau cadarn dros nifer o flynyddoedd i sicrhau nifer priodol o leoedd ysgol a natur a lleoliad priodol ar eu cyfer, fel y mae buddsoddiad cyfalaf wedi'i ganiatáu.
- Cymeradwywyd holl achosion busnes llawn yr awdurdod ar gyfer Band A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a chwblhawyd prosiectau neu mae'r gwaith wedi hen ddechrau. Yr unig brosiect sydd heb ddechrau ar y safle eto yw adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gorseinon, yr oedd y safle'n destun Cais Maes Pentref. Caiff yr holl brosiectau uchod eu cwblhau o fewn strwythur y rhaglen a chyn diwedd Band A.
- Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yr awdurdod yn destun llywodraethu cadarn, sy'n cynnwys Bwrdd Rhaglen a Grŵp Cyflwyno traws-ddisgyblaeth, gyda llwybrau clir i'w dilyn os bydd problemau'n dwysáu sydd wedi arwain at reoli cyllid a risgiau'n effeithiol, a chyflwyno'r rhaglen mewn pryd, ac o fewn cwmpas a chyllideb. Mae'r strwythur llywodraethu presennol wedi'i wreiddio ac yn gweithio'n dda yn dilyn diwygiad ar ôl Adolygiad Porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OGC) yn 2015. Mae gan y Bwrdd Rhaglen ffocws strategol, ac mae'r Grŵp Cyflwyno'n canolbwyntio ar faterion cyflwyno gweithredol a argymhellwyd gan Adolygiad Porth yr OGC.

- Lle bu angen, gwnaed penderfyniadau anodd, ynghyd â thrawsnewid radical (yn fwyaf diweddar, y model newydd ar gyfer darpariaeth EOTAS) a bydd hyn yn parhau i fod yn wir gyda mynediad yn y dyfodol i fuddsoddiad Band B.
- Mae'r ALl yn gwneud cynnydd cryf i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoedd dros ben.
- Byddai'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw adeileddol blaenorol gwerth £147m, wedi'i addasu i adlewyrchu cynnydd chwyddiannol mewn gwaith adeiladu, yn gyfartal â swm o o leiaf £180m. Yr amcangyfrif diweddaraf ar gyfer gwaith sydd i'w wneud o hyd yw £97m, gostyngiad mewn gwirionedd o o leiaf £80m.
- Mae ysgolion yn dal i elwa o'r rhan fwyaf (dros 70%) o raglen cynnal a chadw cyfalaf flynyddol yr awdurdod lleol sydd wedi'i blaenoriaethu ar sail risg, ac sy'n gyson â chynlluniau' Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan sicrhau y caiff ei dargedu i ysgolion lle mae'r angen mwyaf.
- Mae prosesau tra datblygedig i annog rheoli asedau'n effeithiol, a chefnogir ysgolion i ddatblygu a chynnal cynlluniau parhad busnes.
- Parheir i ddatblygu defnydd cymunedol ehangach o asedau er mwyn manteisio i'r eithaf ar fudd buddsoddiad cyfalaf. Mae Abertawe wedi parhau i ddefnyddio buddsoddiad cyfalaf yn y rhaglen Dechrau'n Deg, gydag oddeutu 2,900 o blant 0 i 3 oed yn elwa'n flynyddol ers 2015-2016.
- Mae system effeithiol ar waith er mwyn ymgynghori ag awdurdodau lleol eraill ar drefniadau derbyn.
- Mae cefnogaeth wych ar gael i rieni o ran derbyniadau i ysgol, sy'n gwbl amlwg ar wefan yr awdurdod lleol. Mae cefnogaeth wych ar gael mewn ysgolion i gefnogi'r broses dderbyn.
- Mae'r ALl yn mynd ati i weinyddu derbyniadau meithrin a chanol blwyddyn ar-lein er mwyn lleihau'r amser y mae plant allan o'r ysgol pan fydd angen iddynt newid ysgol.
- Gwnaed cynnydd cadarn gydag ysgolion i gyflawni gweithdrefnau effeithiol i gefnogi disgyblion mewn perygl o gael eu gwahardd.
- Mae bron pob disgybl yn cael lle yn yr ysgol gyntaf o'i ddewis. Cynhelir pob gwrandawiad apêl o fewn y cyfnod gofynnol.
- Mae'r fforwm derbyniadau'n ymatebol wrth gefnogi'r ALl.

Meysydd i’w datblygu

- Gwella effeithiolrwydd cynnwys aelodau/swyddogion i gyfeirio datblygu buddsoddiad cyfalaf tymor hwy a chynigion trefniadaeth ysgol.
- Sicrhau mwy o weithio ar y cyd rhwng ysgolion cyn cyflwyno trefniadaeth y dyfodol a chynigion buddsoddi cyfalaf, a'u hwyluso.
- Sicrhau bod effaith y CDLl yn cael ei monitro a'i gwerthuso'n effeithiol a bod gofynion yn cael eu haddasu wrth i'r amseru a maint datblygiadau'r dyfodol ddod yn fwy sicr.
- Gwella gallu'r sefydliad i fireinio a gwahanu data ymhellach i wella'r broses o flaenoriaethu'r ysgolion categori C a'r adeiladau categori D sy'n weddill mewn ysgolion uwchradd a chynnal y data cadarn ar gyflwr, ôl-groniad ac addasrwydd i gyfeirio cynigion ac achosion busnes y dyfodol.
- Datblygu achosion busnes manwl a chyflwyno cynigion Band B a chynlluniau blaenoriaeth cyfalaf.
- Gwella'r defnydd ehangach o asedau a chyfleusterau gan y gymuned lle mae galw am hynny, lle mae gan ysgolion le priodol, a lle mae defnydd o'r fath yn

gynaliadwy, gan gydnabod nad yw ysgolion yn gallu defnyddio'u cyllidebau dirprwyedig i gefnogi'r fath ddefnydd a bod yn rhaid iddynt barhau i fodloni gofynion diogelu ac yswiriant.

- Parhau i weithio gydag ysgolion i sicrhau bod adeiladau'n cael eu cynnal a'u cadw'n briodol ac, ar gyfer adeiladau newydd/ailfodelu sylweddol, sicrhau ymrwymiad cyrff llywodraethu i gynnal eu hased newydd neu adnewyddedig.

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

3.1 Arweinyddiaeth

Crynodeb

- Mae Cynllun Corfforaethol 2017-2022 yn parhau i gynnwys blaenoriaeth glir er mwyn gwella deilliannau addysg a sgiliau. Gan roi cyfle i'r holl blant a phobl ifanc ddatblygu i'w potensial llawn a manteisio ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe.
- Adolygwyd strwythur Cabinet Abertawe er mwyn adlewyrchu'n well heriau 2017-2020, newidiadau i'r amgylchedd allanol a'r ffocws y mae ei angen i gyflwyno'r pum blaenoriaeth gorfforaethol. O ganlyniad, mae addysg yn parhau i elwa o arweinyddiaeth wleidyddol a her gref. Gwnaed penderfyniadau anodd yng nghyllideb 2017-2018 i barhau i flaenoriaethu'r gyllideb ddirprwyedig i ysgolion drwy gyllid ychwanegol i dalu costau codiadau cyflog, codiadau pensiwn, CAA ychwanegol a'r ardoll brentisiaethau newydd, yn ogystal ag arian datganoledig fel rhan o fodel newydd ar gyfer darpariaeth EOTAS. Yn ogystal â'r cyllid ychwanegol sylweddol a ddarparwyd i roi'r model newydd ar gyfer darpariaeth EOTAS ar waith, darparwyd cyllid hefyd i gydnabod galw cynyddol a chost lleoliadau y tu allan i'r sir. O ganlyniad, yn Abertawe cafwyd y cynnydd canrannol mwyaf mewn gwariant refeniw net cyllidebol ar addysg sef 4.4% o'i chymharu â chyfartaledd o 1% ar draws Cymru yn ôl yr ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar adeg pan roedd 8 awdurdod wedi cymeradwyo gostyngiadau ariannol.
- Mae gan y Cabinet, ac yn arbennig Aelod y Cabinet dros Addysg, ei dirprwy a Chadeirydd Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi (PDChP) Addysg, ddealltwriaeth ddofn o gryfderau a meysydd i'w datblygu yn y maes addysg. Mae cyfarfodydd pythefnosol â swyddogion addysg yn dal swyddogion i gyfrif mewn modd cadarn.
- Mae effaith arweinyddiaeth o safon yn y rhan fwyaf o feysydd y system addysg (arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, aelodau a swyddogion) wedi arwain at amrywiaeth o welliannau megis deilliannau yng Nghyfnod Allweddol 4, y proffil categoreiddio ysgolion, perfformiad grwpiau diamddiffyn a gwelliannau mewn presenoldeb.
- Mae diweddariadau ac adolygiadau blynyddol o berfformiad yn dangos yn glir sut mae nodau, blaenoriaethau ac amcanion gwella'r cyngor yn cyfrannu at les pobl yn Abertawe fel y'i nodir yn y Cynllun Un Abertawe.
- Mae pum amcan lles y cyngor yn cyfrannu mewn ffordd gwerth chweil at saith nod llesiant Cymru a ddisgrifir yn Neddf (y Ddeddf) Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r datganiadau lles hefyd yn disgrifio sut mae'r awdurdod yn mwyafu'r cyfraniad hwn at y nodau cenedlaethol trwy weithio'n unol â'r egwyddorion cynaladwyedd a nodwyd yn y Ddeddf.
- Mae'r cynllunio gwelliant corfforaethol trwyadl blynyddol yn sbarduno cynllunio busnes a gweithredu cyfarwyddiaethau, adrannau a gwasanaethau'n effeithiol. Mae gan bron pob cynllun gweithredol dargedau mesuradwy ac maent yn cysylltu â chylch blaenoriaethu cyllideb y cyngor a'r cynllunio ariannol tymor canolig.
- Canfu asesiad corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) o Abertawe fod gweledigaeth glir o'r hyn mae'r cyngor am ei gyflawni. Mae uwch-reolwyr yn deall hyn yn dda a cheir trefniadau llywodraethu cadarn yn gyffredinol. Mae eu

hadolygiad o drefniadau rheoli perfformiad 2015-2016 yn nodi gwelliannau i gynllunio busnesau gwasanaeth a chreu ymagwedd fwy cyson a chydweithredol. Mae'n ychwanegu bod Cynllun y Gwasanaeth Addysgu yn dangos blaenoriaethu a chysylltiadau cryfach â'r Cynllun Corfforaethol a'i fod hefyd yn elwa o ddadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau (SWOT) sydd wedi'i ddatblygu'n dda. Yn ei adroddiad gwella blynyddol 2016-2017, adroddir bod gan y cyngor fframwaith llywodraethu clir er mwyn penderfynu ar unrhyw newid sylweddol i wasanaethau ond mae angen iddo egluro sut caiff effaith y newid hwn i ddefnyddwyr gwasanaeth ei werthuso.

- Mae SAC hefyd yn ystyried bod gan y cyngor weledigaeth a strategaeth glir yn ei fframwaith 'Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol', a ddylai, ynghyd â'r pum blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol, gyflwyno canlyniadau i fynd i'r afael â'r asesiad o anghenion a wnaed a'r heriau sy'n wynebu'r ddinas.
- Mae arweinyddiaeth gorfforaethol a gwleidyddol amlwg sy'n cwmpasu llai o flaenoriaethau'n helpu'r cyngor i gryfhau'r ffordd y mae'n rheoli ei berfformiad.
- Mae Cynllun y Gwasanaeth Addysg a chynlluniau gweithredol Penaethiaid Unedau'n cefnogi cyflwyno agendâu a blaenoriaethau corfforaethol a rhanbarthol yn dda iawn. Mae trefniadau rheoli perfformiad cadarn yn cefnogi 'llinyn euraid' o reoli perfformiad cyflwyno drwy'r sefydliad. Mae monitro cynnydd yn barhaus ac adrodd arno yng nghyd-destun camau gweithredu, targedau a dangosyddion perfformiad yn gwneud cynnydd cyson.
- Mae'r Bwrdd Gwella a ffurfiwyd gan y Prif Weithredwr yn dilyn arolygiad GAALlPPI yr awdurdod gan Estyn yn 2013 wedi parhau i sicrhau ffocws ar yr argymhellion ac o ganlyniad, mae bron pob un wedi gwneud cynnydd cadarn ac mae un argymhelliad wedi gwneud cynnydd da iawn. Bydd y ffocws bellach yn symud i'r un argymhelliad sydd wedi gwneud cynnydd boddhaol yn unig a'r blaenoriaethau ychwanegol a nodwyd yn y ddogfen hon. Bydd hyn yn parhau mewn modd cyson ac effeithiol i ddal uwch-swyddogion i gyfrif a pharhau i sicrhau gwelliant cyflym.
- Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Pobl, Aelod y Cabinet dros Addysg a'r Prif Swyddog Addysg yn ymweld ag ysgolion ac yn mynd i gyfarfodydd â phenaethiaid yn rheolaidd. Mae hyn yn caniatáu iddynt gael dealltwriaeth drylwyr o faterion a hefyd, pan fo'r angen, herio ysgolion e.e. pan fydd gan ysgolion ormod o arian dros ben.
- Dangosir y gefnogaeth wleidyddol gref ar gyfer addysg yn Abertawe gan yr ymrwymiad polisi clir i wario bron £1 biliwn dros gyfnod o 5 mlynedd ar addysg, gan gynnal felly'r lefel refeniw bresennol wrth geisio cael mynediad i raglen buddsoddi cyfalaf fawr a pharhaol drwy Fand B rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif.
- Yn hydref 2015, ailstrwythurwyd yr Adran Addysg ac mae Bwrdd Arweinwyr Strategol (BAS) ac Uwch-dîm Arweinyddiaeth (UDAA) bellach wedi'u gwreiddio'n llwyr, gan ddarparu arweiniad cryf er mwyn ysgogi gwelliant. Mae hyn, ynghyd â strwythur llywodraethu mwy cadarn drwy'r BAS, yr UDAA, rhanddeiliaid allweddol, grwpiau a byrddau ymgynghorol, wedi cryfhau prosesau adrodd, monitro a rheoli perfformiad yn sylweddol. O ganlyniad, mae rheolwyr yn fwy atebol ar gyfer pob agwedd ar gyflwyno, cynllunio, perfformiad a rheoli cyllidebau gwasanaethau.
- Mae'r rhan fwyaf o staff addysg yn deall eu cyfraniad at flaenoriaethau unedau, gwasanaethau a chynlluniau lleol ac yn cyfleu'r rhain i ysgolion a phartneriaid eraill.

- Mae'r ymagwedd Dangosfwrdd Corfforaethol at gasglu ac esbonio gwybodaeth am berfformiad ac adrodd amdani'n troi gweledigaeth y cyngor mewn modd effeithiol yn amcanion ac yn fesurau pendant. Mae hefyd yn cefnogi cyflwyno targedau arbedion.
- Mae adolygiadau comisiynu'n herio gwasanaethau'n gyson i ganolbwyntio ar ddatblygu opsiynau a phartneriaethau sy'n arwain at fodelau cyflwyno gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol.
- Mae prosesau ac offer cynhwysfawr a hen sefydledig ar waith i fonitro a dadansoddi perfformiad ysgolion a disgyblion, gan gynnwys hyfforddiant da iawn i staff, llywodraethwyr ac ymgynghorwyr herio ysgolion ym maes defnyddio data. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at welliant parhaus o ran herio ac ymyrryd i dargedu cefnogaeth ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion a chodi safonau i'r holl ddisgyblion yn y ffordd orau.
- Mae prosesau ERW bellach wedi'u gwreiddio'n fwy cyson ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gategoreiddio ysgolion. Ym mlwyddyn academaidd 2015-2016, cafwyd cynnydd yn nifer yr ysgolion gwyrdd/melyn a gostyngiad yn nifer yr ysgolion coch/ambr. Ym mlwyddyn academaidd 2016-2017 roedd, 9 o 14 ysgol uwchradd yng ngrŵp safonau 1, i fyny 8 o'r llynedd a'r uchaf yng Nghymru (64.3% yng ngrŵp 1 o'i chymharu â 30.8% ar gyfer Cymru).
- Mae dangosyddion perfformiad allweddol addysg yn parhau i ddangos tueddiadau gwella yn enwedig er gwaethaf gostyngiad yn Abertawe (ac yng Nghymru) yn 2017 a'r trothwy L2 cynhwysol.
- Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi'i wreiddio'n llwyddiannus yn fframwaith polisi'r cyngor. Mae bron pob ysgol wedi mabwysiadu a gwreiddio CCUHP yn ei hethos a'i gwaith.
- Mae'r aelodau etholedig yn craffu'n drwyadl ar flaenoriaethau addysgol a phob agwedd ar berfformiad addysg mewn ysgolion a darpariaeth gwasanaeth addysg. Dywedodd SAC fod strwythur craffu'r cyngor yn galluogi ymagwedd hyblyg â ffocws.
- Ystyrir data monitro perfformiad y cyngor cyfan yn chwarterol yng nghyfarfod y Panel Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid.
- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 Abertawe'n gynllun cadarn sy'n dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a gwella'r Gymraeg mewn Addysg, yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cafwyd tuedd gynyddol gyson mewn perthynas â nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 7 oed (Blwyddyn 2), sydd wedi cynyddu 27.1% rhwng 2012 a 2017 (o 332 i 432).
- Mae'r Bwrdd PPI wedi'i ailffocysu'n addas a datblygwyd cynllun partneriaeth Plant a Phobl Ifanc newydd. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod gwaith partneriaeth yn cyd-fynd fel ei fod yn cynnwys deddfwriaeth, dangosyddion deilliannau a'r erthyglau o CCUH , gan roi pwyslais arbennig ar y pedair egwyddor arweiniol a sut cânt eu gweithredu.

Meysydd i'w datblygu

- Gwella ymhellach yr arweinyddiaeth o safon mewn ambell faes yn y system addysg (arweinwyr a llywodraethwyr, aelodau a swyddogion ysgolion).
- Gwella ymhellach ddeilliannau a sgiliau addysg er mwyn manteisio ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe.
- Cyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020.

- Parhau i wella prosesau hunanwerthuso, cynllunio ar gyfer gwella a defnyddio meini prawf llwyddiant mesuradwy mewn ychydig iawn o gynlluniau gweithredol.
- Gwella cysondeb ac effaith ERW ymhellach. Mireinio ymhellach strwythur yr Adran Addysg i ymateb i waith partneriaeth a rhanbartholi cynyddol.
- Sicrhau bod yr holl staff yn deall eu cyfraniad at gynlluniau strategol, gwasanaeth a lleol a chyfleu'r rhain i ysgolion a phartneriaid eraill.

3.2 Gwella Ansawdd

Crynodeb

- Aed i'r afael ag argymhellion Estyn yn dilyn yr arolygiad ym mis Mehefin 2013 drwy gamau gweithredu yng nghynlluniau unedau ac adrannol yr Adran Addysg. Mae camau gweithredu allweddol wedi cael eu monitro'n dymhorol a darperir adroddiadau rheolaidd i Fwrdd Gwella'r Prif Weithredwr a'r Cabinet. Mae'r ymagwedd hon wedi arwain at gynnydd cryf mewn perthynas ag Argymhellion 1, 2, 3 a 5. Mae cynnydd o ran Argymhelliad 4 wedi bod yn foddhaol. Bydd Bwrdd Gwella'r Prif Weithredwr a'r Cabinet yn parhau i graffu a herio i sicrhau bod cynnydd yn cyflymu.
- Mae prosesau hunanwerthuso'n briodol ac mae llais y dysgwr yn arbennig o effeithiol.
- Mae'r fframwaith cynllunio a rheoli gweithredol cadarn a sefydlwyd ym mis Ionawr 2014 yn parhau. Mae materion perfformiad yn cael eu nodi, eu blaenoriaethu a'u datrys mewn ffordd strwythurol, effeithiol ac amserol. Mae pennu targedau bellach yn fwy heriol.
- Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gweithredol yn rhai o safon, ac mae'r adrodd misol gan reolwyr UDAA yn darparu gwybodaeth glir am gynnydd, materion, heriau a llwyddiannau. Mae gan y cynlluniau i ysgogi gwaith yr Adran Addysg gyswllt agos â chyflwyno gwell deilliannau i ddysgwyr a blaenoriaethau allweddol y cyngor.
- Mae defnyddio'r gofrestr risg adrannol a gafodd ei datblygu a'i rhoi ar waith ym mis Chwefror 2016 ar gyfer risgiau Unedau'r Gwasanaeth Addysg wedi bod yn fuddiol iawn. Caiff risgiau'r Uned eu monitro gan y BAS a'r MPA ac mae'r broses hon yn cryfhau ymhellach allu'r adran i reoli risgiau yn unol â'r Fframwaith Rheoli Risgiau Corfforaethol.
- Mae'r Uned Gwasanaeth Addysg a ddatblygwyd ac a sefydlwyd yn 2016, ynghyd â phrotocol cymeradwyo cytunedig, yn parhau i sicrhau bod yr holl gomisiynau, adroddiadau a cheisiadau am wybodaeth yn cael eu cofnodi a'u monitro a bod eu hansawdd yn cael ei sicrhau.
- Mae trefniadau cadarn ar waith bellach i gefnogi a herio ysgolion o ganlyniad i graffu ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn well. O ganlyniad, caiff tanberfformio a ffactorau risg mewn ysgolion eu nodi'n gyflym bellach, ac eir i'r afael â hwy'n gynt. Mae'r categoreiddio cenedlaethol wedi golygu y gellir gwneud cymariaethau cenedlaethol ehangach yn fwy cyson.
- Caiff perfformiad ysgolion ei fonitro drwy amrywiaeth o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau ymgynghorwyr herio ag ysgolion a dadansoddi data. Mae'r wybodaeth yma'n helpu i lunio barn am berfformiad cyfredol ysgol a'r gallu i wella. Caiff argymhellion ysgol gan Estyn eu dadansoddi'n ddigonol ond ychydig iawn o adroddiadau thematig sy'n cael eu dadansoddi.

- Mae trefniadau craffu'n parhau i fod yn gryf a chydnabyddir yn rhanbarthol eu bod yn effeithiol. Cydnabuwyd hyn yn genedlaethol pan gafodd Cyngor Abertawe ei roi ar y rhestr fer ar gyfer gwobr y Municipal Journal am ragoriaeth ym maes craffu ym mis Mehefin 2016. Mae'r trefniadau'n gwella dulliau llywodraethu eraill y cyngor. Caiff gwe-dudalennau craffu eu diweddaru'n rheolaidd, ac maent yn darparu gwybodaeth amserol a chynhwysfawr am waith craffu i aelodau'r cyhoedd.
- Abertawe yw'r arweinydd cefnogi craffu ar gyfer y gwasanaeth gwella rhanbarthol. O ganlyniad i'r arweinyddiaeth effeithiol hon, mae adroddiadau ERW i'r tîm craffu'n glir ac yn llawn gwybodaeth ac mae hefyd wedi helpu i gadeiryddion craffu'r chwe awdurdod lleol weithio'n agosach â'i gilydd drwy'r Grŵp Cynghorwyr Craffu Rhanbarthol.
- Mae ysgolion y mae angen y gefnogaeth fwyaf arnynt i wella'n cael eu herio'n gadarn, yn bersonol, gan y Prif Swyddog Addysg. Mae'r Tîm am yr Ysgol (TAY) yn sicrhau partneriaeth gref rhwng swyddogion, arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion i gefnogi mewn ffordd benodol a herio cyflymdra'r gwelliant.
- Bwrdd Gwella'r Prif Weithredwr a'r Panel Craffu Perfformiad Ysgolion sy'n craffu'n drylwyr ar berfformiad ysgolion.
- Mae'r data a'r dadansoddiadau a ddarperir i swyddogion ac ysgolion yn nodweddion eithriadol ac wedi cyfrannu'n uniongyrchol at godi safonau. Mae'r rheoli, yr wybodaeth a'r data rhagorol sydd ar gael yn Abertawe wedi hwyluso nodi materion perfformiad a phryderon eraill.
- Mae'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed (PABAN) yn enghraifft dda o ddatblygiad y mae gwasanaethau yn ogystal ag ysgolion wedi elwa'n fawr ohono. Mae'r tîm craffu wedi edrych yn fanwl ar y defnydd o'r PABAN ac wedi canmol y gwaith hwn yn fawr. Rhannwyd hyn ag awdurdodau lleol ledled Cymru.
- Mae data perfformiad disgyblion yn destun craffu gan y Cabinet a'r aelodau etholedig ac yn cefnogi nodi meysydd ar gyfer gweithredu.
- Mae gwelliannau arfaethedig a datblygiadau gwasanaethau wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus trwy brosesau monitro perfformiad ac ariannol (MPA) aeddfed ar draws yr holl gyfarwyddiaethau.
- Mae cynlluniau gweithredol gwerth chweil yr Uned dan Gynllun yr Adran Addysg, ynghyd â chyfarfodydd tîm ac un i un (cyfarfodydd dwyochrog), yn caniatáu i reolwyr llinell a staff fynegi pryderon am berfformiad a chyfrifoldebau unigol.
- Caiff gwasanaethau a gomisiynwyd a CLG eu monitro a'u gwerthuso'n rheolaidd.
- Mae perthnasoedd ag ysgolion yn gyffredinol dda. Mae cyfarfodydd penaethiaid rheolaidd a'r grwpiau partneriaeth yn y strwythur ymgynghorol a amlinellir yn y Cytundeb Partneriaeth Ysgolion/ALl yn creu dull effeithiol ar gyfer codi materion a chytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â hwy.
- Mae Grŵp Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar yn cyflawni gwaith pontio yn Abertawe o Ddechrau'n Deg i'r ysgol ac o'r feithrinfa i'r ysgol. Eu ffocws yw parodrwydd y plentyn a'r teulu ar gyfer yr ysgol a chynnal ansawdd y gefnogaeth trwy gydol y cyfnod hwn.

Meysydd i'w datblygu

- Adolygu'n llawn addasrwydd a chost effeithiolrwydd model y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol presennol (ERW).

- Monitro cynnydd yn erbyn amcanion unigol a geir mewn cynlluniau gweithredol yr uned yn fwy cadarn.
- Gwella ymhellach y gefnogaeth o ysgol i ysgol ar draws y cyngor a'r rhanbarth.
- Adolygu darpariaeth ar gyfer y dyfodol trwy'r Grŵp Strategaeth Addysg.
- Sicrhau bod yr awdurdod yn gwneud defnydd gwell o adroddiadau thematig Estyn.
- Sicrhau mwy o fewnbwn gan ysgolion ar hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

3.3 Gwaith partneriaeth

Crynodeb

- Rheolir y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) fel cynghrair o chwe awdurdod lleol drwy gyd-bwyllgor. Arweiniodd effaith y gweithio ar y cyd i ddechrau at gyflymu gwella deilliannau yng Nghyfnod Allweddol 4, a datblygiad cychwynnol gwaith ysgol i ysgol ar draws y rhanbarth. Yn ogystal, mae dewislen o gefnogaeth gydlynol ar draws awdurdodau lleol i ysgolion sy'n cynnwys arweinyddiaeth, addysgu, cefnogaeth a lles wedi datblygu. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar draws y rhanbarth, gydag Abertawe'n arwain mewn meysydd megis presenoldeb ac SIY.
- Roedd adborth gan ysgolion am ERW yn 2015-2016 yn gadarnhaol yn bennaf, gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn teimlo eu bod wedi derbyn cefnogaeth a her briodol, fodd bynnag, roedd yr adborth yn 2016-2017 yn llai cadarnhaol. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau y darperir gwell darpariaeth sy'n parhau i godi safonau yn ysgolion Abertawe.
- Mae Aelod y Cabinet dros Addysg ac uwch-swyddog aelodaeth y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Gweithredol yn sicrhau bod gan Abertawe lais fel partner yn y gwasanaeth.
- Mae partneriaethau sefydledig digonol rhwng ysgolion uwchradd, yr ysgolion arbennig a darparwyr addysg uwch a phellach.
- Mae trefniadau rhannu data diogel ac effeithiol ar waith rhwng yr Uned Systemau Rheoli a nifer o bartneriaid lleol. Mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda, ac mae rhannu data'n galluogi gwasanaethau amrywiol i gael yr wybodaeth mae ei hangen arnynt i gefnogi disgyblion a chynllunio ymyriadau.
- Mae gwaith partneriaeth da er mwyn gwella'r gwasanaeth cerdd wedi arwain at ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol drwy grwpiau sy'n cynnwys Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Grŵp Gwasanaethau Cerddoriaeth Cymru ac ERW.
- Mae'r bartneriaeth â'r Gwasanaethau Ieuenctid a'r Tîm Troseddau Ieuenctid wedi'u datblygu'n dda ac o ganlyniad, cyflawnir canlyniadau da.

Meysydd i'w datblygu

- Cyflwyno cyfleoedd ar gyfer meysydd cyd-weithio pellach yn y rhanbarth ac yn benodol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ac yn enwedig ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol a rheoli data.
- Gwella cysondeb ac effaith y gwasanaeth gwella rhanbarthol (ERW) ymhellach.
- Ailsefydlu a bywiogi Partneriaeth Ddysgu Abertawe rhwng ysgolion, yr ysgolion arbennig a darparwyr addysg bellach ac uwch, Coleg Gŵyr, y ddwy brifysgol a Gyrfa Cymru.
- Sefydlu dulliau cydweithio mwy effeithiol â'r Awdurdod Iechyd.

3.4 Rheoli adnoddau

Crynodeb

- Mae'r prosesau monitro perfformiad ac ariannol (MPA) ar draws yr holl gyfarwyddiaethau, monitro rhaglenni a phrosiectau corfforaethol allweddol a llywodraethu cryf yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n dda. Ceir tystiolaeth o hyn wrth i'r cyngor barhau i reoli cyllidebau gwasanaethau'n effeithiol, gwneud arbedion effeithlonrwydd, gwella gwasanaethau a chyflwyno rhaglenni a phrosiectau allweddol.
- Mae rhaglen drawsnewid y cyngor gyda'i rhaglenni penodol a'i hadolygiadau comisiynu, yn llwyddo wrth ysgogi ymdrechion ar draws yr holl gyngor i ail-lunio gwasanaethau, gweithio mewn ffyrdd gwahanol i wella effeithlonrwydd, trawsnewid cyflwyno gwasanaethau a lleihau costau. Mae Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) 2015 yn cydnabod hyn gan ddweud 'bod y cyngor wedi ymateb yn effeithiol i'r her o reoli dyfodol lle bydd yr adnoddau a fydd ganddo i ddiwallu anghenion lleol yn cael eu cwtogi'n sylweddol'.
- Ailstrwythurwyd rheolaeth yr adran addysg yn 2015 fel rhan o'r gwaith ehangach i gynllunio'r gweithlu, er mwyn canolbwyntio'n effeithiol ar y meysydd blaenoriaeth pwysicaf a chael digon o allu i gyflawni dyletswyddau statudol craidd a sicrhau cynllunio cadarn ar gyfer olyniaeth. Oherwydd yr holl ganolfannau costau ac elfennau traul, mae gan reolwyr berchnogaeth dda o'u meysydd cyllidebu ynghyd â chyfrifoldeb amdanynt. Mae angen adolygu'r strwythur ymhellach o ystyried bod swydd wag yn yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth.
- Roedd y rhaglen datblygu rheoli, a ddechreuwyd yn 2016 ar gyfer yr Uwch- dîm Arweinyddiaeth Addysg (UDAA) ac yn parhau yn 2017, yn cynnwys arweinyddiaeth a datblygu rheolaeth adnoddau. O ganlyniad, mae'r arweinyddiaeth a'r modd y rheolir cyllidebau ac adnoddau'n fwy effeithiol a cheir mwy o berchnogaeth ac atebolrwydd.
- Mae strategaeth y gyllideb, 'Un Addysg', yn darparu cynllun ariannol tymor canolig sy'n cyflwyno strategaeth ariannol gyson i flaenoriaethu'r gyllideb ddirprwyedig i ysgolion a meysydd cefnogaeth penodol i ddisgyblion yn y gyllideb heb ei dirprwyo. Wrth gymharu dyraniad cyllidebau'r portffolio Addysg dros y blynyddoedd diwethaf, gwelir y blaenoriaethu clir hwn ac effaith eang y newidiadau.

- Mae'r ffocws ar flaenoriaethu'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig a'r gwasanaethau cefnogi disgyblion; gwasanaethau statudol dros rai dewisol; mae effeithlonrwydd, ailstrwythuro ac adfer costau o grantiau wedi parhau gan alluogi'r Adran Addysg i gyrraedd yn llwyddiannus y targedau cyfleoedd arbed arian a nodwyd yn unol â'r agenda gorfforaethol.
- Erys ymrwymiad gwleidyddol cyson i fuddsoddi mewn ysgolion a dysgu ac addysgu i sicrhau mai'r flaenoriaeth bennaf yw bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- Yr hyn sy'n sail i'r strategaeth ariannol hon yw ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid drwy'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ac is-grwpiau (yn enwedig y Grŵp Cyllid ar y Cyd). Mae gan y rhain broses herio ac adolygu gadarn a threigl ar gyfer yr holl feysydd cyllidebol yn y Gwasanaeth Addysg. Mae'r Grŵp Strategaeth Addysg, a sefydlwyd gan Arweinydd y Cyngor ac a gadeirir ganddo, yn cydnabod yr heriau ariannol cynyddol sy'n wynebu ysgolion ac mae'n dangos yr ymrwymiad gwleidyddol i gydweithio ag ysgolion. Y ffocws yw datblygu strategaethau ariannol tymor byr, canolig a hir ar gyfer yr Adran Addysg. Mae'r grŵp yn ategu'n effeithiol rôl ymgynghorol y Fforwm Cyllideb Ysgolion, gan ddarparu mwy o gyfleoedd rhyngweithiol a gweithdai er mwyn adolygu a datblygu strategaethau a meysydd polisi allweddol.
- Mae canoli rheoli grantiau wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd a chydlynu a chadernid gwell yn y dyfodol.
- Mae adolygu ac ailstrwythuro gwasanaethau'n parhau. Cafodd y Gwasanaeth Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig ei ailstrwythuro'n llwyddiannus yn ddiweddar yn dilyn gostyngiad mewn ffrydiau ariannu grantiau yr ALl a Llywodraeth Cymru. Ailstrwythurwyd y Gwasanaeth Cerdd mewn modd tebyg ac mae nifer o adolygiadau comisiynu ychwanegol yn mynd rhagddynt.
- Mae llwyddiant parhaol wrth gyflwyno cynigion ar gyfer adnoddau cyfalaf ac wrth gyflwyno prosiectau pwysig. Canmolodd Adolygiad Porth yn 2015 y modd y caiff rhaglen trefniadaeth ysgolion AoS ei rheoli yn Abertawe ac mae argymhellion o'r adolygiad wedi'u rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r arfer da ymhellach ym maes cynnwys rhanddeiliaid, cynyddu adnoddau cefnogi rhaglenni a phrosiectau, adolygu cymhorthion rheoli prosiectau, cyflwyno methodoleg risgiau, rhagdybiaethau, materion a dibyniaethau (RRhMD) ac adolygu'r trefniadau llywodraethu rhaglenni. Bydd hyn yn gwella cyfeiriad strategol ymhellach wrth symud ymlaen ac elfen gyflwyno'r rhaglen.
- Cyflwynwyd Rhaglen Amlinellol Strategol wedi'i diweddaru (Gorffennaf 2017) sy'n cynrychioli datblygiad naturiol y strategaeth tymor hir a gymeradwywyd yn flaenorol. Mae'r cyflwyniad yn dangos lefel uchel yr uchelgais (£149.7m ar gyfer Band B yn unig) a'r ymrwymiad i'r rhaglen. Mae'r cyflwyniad yn adlewyrchu asesiad a blaenoriaethu gwrthrychol, cyson ar gyfer cyflwr, addasrwydd a materion cynaladwyedd yn ogystal â meysydd angen sylfaenol ar gyfer darpariaeth ychwanegol. Mae'n parhau â'r ffocws clir a chyson ar y rhaglen tymor hir a byddwn yn adeiladu ar y buddion sylweddol sydd eisoes wedi'u gwireddu.
- Cynhaliwyd adolygiad sylfaenol a thrylwyr o'r holl gytundebau lefel gwasanaeth (CLG) i sicrhau yr adenillir yr holl gostau ac y bydd ffocws clir ar gyflwyno a pherfformiad ar gyfer y cleient. Mae digonolrwydd, addasrwydd a pherfformiad CLG yn cael eu hadolygu gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion ac is-grwpiau, a bydd yn parhau i adeiladu ar y sylfaen gadarn hon. Mae CLG yr awdurdod yn parhau i fod yn boblogaidd iawn.

- Fel rhan o'r adolygiad o'r fformiwlâu ariannu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ‘addas at y diben’, mae rhagor o gyfleoedd i ddirprwyo cyllid a chyfrifoldebau ysgolion yn cael eu nodi. Mae cyfleoedd i symleiddio'r fformwlâu a chynnig mwy o sefydlogrwydd ariannu i ysgolion yn cael eu hystyried fel rhan o gynllun gwaith presennol gweithgor y Fforwm Cyllideb Ysgolion.
- Mae'n ofynnol i ysgolion â diffygion geisio cymeradwyaeth gan y swyddog adran 151 ar gyfer unrhyw ddiffyg rheoledig a fydd yn cynnwys datblygu a chymeradwyo cynllun adfer, gyda chefnogaeth lawn swyddogion cyllid. Caiff cyflwyno cynllun adfer ei fonitro'n agos ac adroddir am unrhyw broblemau yn rheolaidd drwy MPA. O ganlyniad, prin yw'r ysgolion a chanddynt gyllideb lle ceir diffyg ac mae gan y rhain gynlluniau adennill clir sy'n cael eu herio'n gadarn gan swyddogion.
- Caiff ambell ysgol sydd â gormod o arian dros ben eu herio'n gyson o ran y cyfiawnhad am lefel y cronfeydd wrth gefn maent yn dewis eu cadw. O ganlyniad, gostyngodd lefelau'r arian wrth gefn yn yr awdurdod yn 2016-2017.
- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd â gormod o arian dros ben yn 2017-2108 yn bwriadu defnyddio arian wrth gefn i liniaru yn erbyn heriau ariannol y tair blynedd nesaf.
- Drwy weithio ar y cyd effeithiol gyda'r Tîm Trafnidiaeth yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, cyflawnwyd arbedion sylweddol o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol, gan liniaru pwysau a disgwyliadau uwch awdurdodau yn y maes hwn.

Meysydd i’w datblygu

- Parhau i ddatblygu a chyflwyno strategaeth ariannol addysgol tymor canolog effeithiol a 'byw' ar gyfer 2017/2018 – 2019/2020, gan gynnal y gwelliant mewn deilliannau dysgwyr ac adlewyrchu canlyniadau cynnwys rhanddeiliaid i gyflwyno trawsnewid radical.
- Trawsnewid agweddau meddwl mewn ysgolion a gwasanaethau'r cyngor sy'n weddill yn sgîl y gostyngiad cyffredinol mewn arian i awdurdodau lleol a'r cynnydd mewn dirprwyo arian a chyfrifoldebau i ysgolion.
- Cwblhau adolygiad cyllideb sylfaenol fesul cam o holl weithgarwch yr Adran Addysg i herio'r canlyniadau a'r gwerth am arian yn unol â ffrwd waith effeithlonrwydd Abertawe Gynaliadwy, ac yn gyson â chanlyniadau'r adolygiadau comisiynu amrywiol.
- Archwilio a datblygu cyfleoedd i adennill costau a masnacheiddio, adeiladu gallu mewn ysgolion i wneud y gorau o'r defnydd hyblyg o asedau a chyfleusterau ysgol yn unol â dyheadau gwleidyddol lleol.
- Mireinio ymhellach strwythur yr Adran Addysg i ymateb i waith partneriaeth a rhanbartholi cynyddol.

Atodiad 1 Crynodeb o Berfformiad

Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) Cyfnod Allweddol 1/Dangosydd y Cyfnod Sylfaen

DPC	2011
Abertawe	81.7%
Cymru	82.7%
Safle	15

Y Cyfnod Sylfaen	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Abertawe	77.6%	80.1%	83.9%	86.2%	85.0%	85.5%
Cymru	80.5%	83.0%	85.2%	86.8%	87.0%	87.3%
Safle	19	21	17	15	19	19

Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) Cyfnod Allweddol 2

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Abertawe	80.8%	83.6%	84.3%	87.3%	89.2%	88.2%	89.5%
Cymru	80.0%	82.6%	84.3%	86.1%	87.7%	88.6%	89.5%
Safle	12	10	13	9	8	16	13

Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) Cyfnod Allweddol 3

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Abertawe	68.4%	73.3%	76.4%	80.6%	83.2%	86.3%	88.2%
Cymru	68.0%	72.5%	77.0%	80.1%	83.9%	85.9%	87.4%
Safle	11	12	14	14	14	13	13

Presenoldeb

Cynradd	2011-2012		2012-2013		2013-2014	
	Presenoldeb	Absenoldebau Heb Ganiatâd	Presenoldeb	Absenoldebau Heb Ganiatâd	Presenoldeb	Absenoldebau Heb Ganiatâd
Abertawe	93.3%	0.5%	93.0%	0.6%	94.4%	1.4%
Cymru	93.8%	0.7%	93.7%	0.9%	94.8%	1.0%
Safle	17	10	Cydradd 20fed a'r olaf	6	Cydradd 18fed	20

Presenoldeb	2014-2015		2015-2016		2016-2017	
	Cynradd	Absenoldebau Heb Ganiatâd	Presenoldeb	Absenoldebau Heb Ganiatâd	Presenoldeb	Absenoldebau Heb Ganiatâd
Abertawe	94.9%	1.2%	94.9%	1.2%	95.0%	1.2%
Cymru	94.9%	1.0%	94.9%	1.1%	Cyh Rhag	Cyh Rhag
Safle	11	18	12	18	Cyh Rhag	Cyh Rhag

Presenoldeb	2011-2012		2012-2013		2013-2014	
	Uwchradd	Absenoldebau Heb Ganiatâd	Presenoldeb	Absenoldebau Heb Ganiatâd	Presenoldeb	Absenoldebau Heb Ganiatâd
Abertawe	92.0%	1.4%	92.3%	1.1%	93.3%	1.2%
Cymru	92.2%	1.4%	92.6%	1.3%	93.6%	1.3%
Safle	15	15	15	12	16	Cydradd 14eg
Uwchradd	**2014-2015**		**2015-2016**		**2016-2017**	
	Presenoldeb	Absenoldebau Heb Ganiatâd	Presenoldeb	Absenoldebau Heb Ganiatâd	Presenoldeb	Absenoldebau Heb Ganiatâd
Abertawe	94.0%	1.1%	94.3%	1.3%	94.3%	1.2%
Cymru	93.8%	1.3%	94.2%	1.3%	94.1%	1.4%
Safle	10	10	11	14	7	10

Cyfnod Allweddol 4 (Data Dros Dro)

Trothwy Lefel 1

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Abertawe	90.8%	92.8%	93.8%	95.5%	96.7%	96.9%	96.0%
Cymru	90.3%	91.8%	93.2%	94.0%	94.4%	95.3%	Cyh Rhag
Safle	13	9	10	9	6	2	Cyh Rhag

Trothwy Lefel 2

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Abertawe	65.8%	74.6%	79.3%	85.4%	88.9%	86.9%	70.0%P
Cymru	67.3%	72.6%	77.8%	82.3%	84.1%	84.0%	67.0%P
Safle	14	11	11	10	5	8	Cyh Rhag

Trothwy Lefel 2 gan gynnwys llwyddo mewn TGAU Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Abertawe	53.2%	54.6%	55.3%	59.1%	64.0%	64.7%	57.3%P
Cymru	50.1%	51.1%	52.7%	55.4%	57.9%	60.3%	55.0%P
Safle	7	8	9	7	3	7	Cyh Rhag

Sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Abertawe	423.5	470.4	525.3	559.6	578	572.6	456.0P
Cymru	422.9	465	501.2	524.5	530.7	527	456.0P
Safle	12	13	9	6	5	4	Cyh Rhag

Sgôr 8 pwynt wedi'i chapio

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017

Abertawe	313.9	328.8	338.9	349.7	358.4	356.6	334.0P
Cymru	311.6	323.5	333.1	340.8	343.5	344.6	325.0P
Safle	11	10	10	10	4	3	Cyh Rhag

Dangosydd pynciau craidd (DPC) yng Nghyfnod Allweddol 4

	2011	**2012**	**2013**	**2014**	**2015**	**2016**	**2017**
Abertawe	51.8%	52.5%	52.9%	56.0%	54.8%	62.2%	55.8%P
Cymru	48.7%	48.9%	49.2%	52.6%	60.6%	57.6%	53.0%P
Safle	6	8	6	8	5	6	Cyh Rhag

Y disgyblion ysgol 15 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig

	2011	**2012**	**2013**	**2014**	**2015**	**2016**	**2017**
Abertawe	0.43%	0.38%	0.1%	0.9p	0%	0%	Cyh Rhag
Cymru	0.6%	0.4%	0.3%	1.1P	Heb ei gyhoeddi	Heb ei gyhoeddi	Heb ei gyhoeddi
Safle	Cydradd 9fed	16	Cydradd 7fed	Heb ei gyhoeddi	Heb ei gyhoeddi	Heb ei gyhoeddi	Heb ei gyhoeddi

Pobl Ifanc NEET 16 oed

Dull cyfrifo Abertawe – dim cymharydd
(Dull Cymru – cymharol) o 2016, dull cenedlaethol yn unig.

	2011	**2012**	**2013**	**2014**	**2015**	**2016**	**2017**
Abertawe	3.1% *(3.1%)*	2.9% *(3.2%)*	3.2% *(3.9%)*	3.7% *(3.5%)*	2.7% -	2.1%	Cyh Ebr
Cymru	*4.4%*	*(4.2%)*	*(3.7%)*	*(3.1%)*	2.8%	2.0%	Cyh Ebr
Safle	*(5)*	*(9)*	*(15)*	*(cyd. 17)*	14		Cyh Ebr

Results for pupil groups

Foundation Phase Indicator

Group	Level	2013	2014	2015	2016	2017	Average	Trend
All	O5+	80.1	84.0	86.2	85.0	85.5	**84.2**	**5.4**
Boys	O5+	75.2	79.3	82.7	81.0	81.5	**79.9**	**6.3**
Girls	O5+	85.4	88.8	89.7	89.4	89.9	**88.6**	**4.5**
Gender gap	O5+	-10.3	-9.5	-7.0	-8.4	-8.4	**-8.7**	**1.8**
FSM	O5+	65.1	72.3	74.2	73.0	70.7	**71.1**	**5.6**
Non-FSM	O5+	84.3	87.0	89.4	88.4	89.4	**87.7**	**5.1**
FSM gap	O5+	-19.2	-14.7	-15.2	-15.4	-18.7	**-16.6**	**0.5**
SA+	O5+	46.9	53.2	59.1	59.4	55.0	**54.7**	**8.1**
Attendance		93.0	94.4	94.9	94.9	95.0	**94.4**	**2.0**

Core Subject Indicator Key Stage 2

Group	Level	2013	2014	2015	2016	2017	Average	Trend
All	L4+	84.3	87.3	89.2	88.2	89.5	**87.7**	**5.2**
Boys	L4+	80.2	83.9	86.4	85.7	87.6	**84.8**	**7.4**
Girls	L4+	88.4	91.0	92.4	90.8	91.6	**90.8**	**3.2**
Gender gap	L4+	-8.2	-7.1	-6.0	-5.1	-4.0	**-6.1**	**4.2**
FSM	L4+	70.0	72.0	76.6	75.8	76.3	**74.1**	**6.3**
Non-FSM	L4+	88.2	90.9	92.2	91.3	92.5	**91.0**	**4.3**
FSM gap	L4+	-18.2	-18.9	-15.6	-15.5	-16.2	**-16.9**	**2.0**
SA+	L4+	53.3	67.2	66.2	62.7	65.6	**63.0**	**12.3**
Attendance		93.0	94.4	94.9	94.9	95.0	**94.4**	**2.0**

Core Subject Indicator Key Stage 3

Group	Level	2013	2014	2015	2016	2017	Average	Trend
All	L5+	76.4	80.6	83.2	86.3	88.2	**82.9**	**11.8**
Boys	L5+	71.7	77.8	79.9	83.3	84.1	**79.4**	**12.4**
Girls	L5+	81.7	83.6	86.5	89.4	92.6	**86.8**	**10.9**
Gender gap	L5+	-10.0	-5.8	-6.6	-6.1	-8.5	**-7.4**	**1.5**
FSM	L5+	52.6	59.5	67.6	69.6	73.2	**64.5**	**20.6**
Non-FSM	L5+	83.0	85.3	87.1	90.2	91.5	**87.4**	**8.5**
FSM gap	L5+	-30.4	-25.8	-19.5	-20.6	-18.3	**-22.9**	**12.1**
SA+	L5+	37.4	49.0	59.1	54.5	65.4	**53.1**	**28.0**
Attendance		92.3	93.3	94.0	94.3	94.3	**93.6**	**2.0**

Level Two Inclusive Key Stage 4

Group	Level	2013	2014	2015	2016	2017p	Average	Trend
All	L2i	55.0	59.1	62.3	66.3	57.3	**60.0**	**2.3**
Boys	L2i	50.1	54.0	59.0	62.3	54.1	**55.9**	**4.0**
Girls	L2i	60.4	64.5	65.7	70.6	60.4	**64.3**	**0.0**
Gender gap	L2i	-10.3	-10.5	-6.7	-8.3	-6.3	**-8.4**	**4.0**
FSM	L2i	27.7	27.2	37.7	39.1	30.0	**32.3**	**2.3**
Non-FSM	L2i	62.6	66.7	69.5	71.4	63.6	**66.8**	**1.0**
FSM gap	L2i	-34.9	-39.5	-31.8	-32.3	-33.6	**-34.4**	**1.3**
SA+	L2i	19.8	22.6	32.5	43.7			
All	5 A*-A incl		10.3	12.1	14.8	12.6	**12.5**	**2.3**
Attendance		92.3	93.3	94.0	94.3	94.3	**93.6**	**2.0**

Note - KS4 results are for pupils in schools only (EOTAS not included).

Ôl-16 (Data Dros Dro)

Trothwy Lefel 3

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Abertawe	97.0%	95.7%	97.4%	96.8%	96.8%	96.9%	95.0%P
Cymru	96.3%	96.9%	96.5%	97.1%	97.0%	98.0%	97.0%P
Safle	10	20	7	15	13	18	Cyh Rhag

Sgôr pwyntiau Lefel 3

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Abertawe	778.0	737.9	769.2	690.8	692.7	704.5	693.0P
Cymru	798.9	772.9	806.6	804.1	799.7	823.2	733.0P
Safle	15	14	14	21	18	19	Cyh Rhag

Profion Cenedlaethol (Blynyddoedd 2 - 9 wedi'u cyfuno)

Profion Darllen Cenedlaethol – Saesneg – Sgorau safonedig

	2014 85+	2014 115 +	2015 85+	2015 115 +	2016 85+	2016 115 +	2017 85+	2017 115+
Abertawe	84.9	17.8	85.5%	18.7%	86.3%	19.5%	85.7%	19.2%
Cymru	83.2	16.5	83.5%	16.6%	83.8%	16.7%	83.5%	16.5%
Safle	6	7	5	4	4	5	4	4

Profion Darllen Cenedlaethol – Cymraeg – Sgorau safonedig

	2014 85+	2014 115 +	2015 85+	2015 115 +	2016 85+	2016 115 +	2017 85+	2017 115+
Abertawe	84.5	15.6	84.8%	14.0%	85.9%	15.1%	86.8%	16.4%
Cymru	84.4	17.5	84.6%	17.1%	84.8%	16.6%	85.1%	16.6%
Safle	13	13	9	14	7	10	8	9

Profion Gweithdrefnol Rhifedd Cenedlaethol - Sgorau safonedig

	2014 85+	2014 115+	2015 85+	2015 115+	2016 85+	2016 115+	2017 85+	2017 115+
Abertawe	84.7%	18.9%	86.7%	20.3%	87.3%	20.9%	86.6%	20.6%
Cymru	82.8%	15.5%	84.2%	16.0%	84.3%	16.1%	83.8%	16.0%
Safle	9	5	8	3	6	3	5	3

Profion Rhesymu Rhifedd Cenedlaethol - Sgorau safonedig

	2014 85+	2014 115+	2015 85+	2015 115+	2016 85+	2016 115+	2017 85+	2017 115+
Abertawe	84.5%	17.3	88.3%	20.6%	88.0%	21.3%	87.1%	20.8%
Cymru	82.2%	14.8	85.6%	16.8%	84.8%	16.9%	84.2%	16.6%
Safle	8	7	6	5	6	2	7	2

Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion uwchradd
Blwyddyn academaidd 2016-2017 wedi'u cyhoeddi yng nghanol 2018.

Gwaharddiadau parhaol (cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion)

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Abertawe	0.2	0.29	0-0.5 (2 - rhy isel i'w gyhoeddi)	0.41 (5 – pob un mewn ysgolion uwchradd)	0.50 (6 – pob un mewn ysgolion uwchradd)	0.22	Cyh 2018
Cymru	0.7	0.5	0.5	-	-	0.23	Cyh 2018
Safle	9	15fed ar y cyd	Cydradd 6ed	Heb ei gyhoeddi	Heb ei gyhoeddi	14	Cyh 2018

Cyfnod penodol pum niwrnod neu lai (cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion)

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Abertawe	63.4	54.7	45.1	21.8 (uwchradd)	15	16.2	Cyh 2018
Cymru	67.7	66.6	57.2	26.7	28	30.9	Cyh 2018
Safle	14	10	9	10	3	3	Cyh 2018

Cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy (cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion)

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Abertawe	6.9	6.5	6.1	1.6 (uwchradd)	2.1	1.4	Cyh 2018
Cymru	6.0	5.3	4.0	1.6	1.7	1.4	Cyh 2018
Safle	14	16	18	9	9	9	Cyh 2018

Rhestr termau

CCAC	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
ADYTA	Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg
ASA	Anhwylder y Sbectrwm Awtistig
Bac	Y Fagloriaeth Gymreig
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
DPC	Dangosydd Pynciau Craidd
AGGCC	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
PPI	Plant a Phobl Ifanc
ADC	Anabledd Datblygu Cydsymud
MGTh	Saesneg fel iaith ychwanegol
UDAA	Uwch-dîm Arweinyddiaeth Addysg
AEA	Asesiad Effaith Cydraddoldeb
GGA	Grant Gwella Addysg
UCLlE	Uned Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
EMLAS	Gwasanaeth Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
EOTAS	Addysg Heblaw yn yr Ysgol
ERW	Ein Rhanbarth ar Waith (Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru)
UGA	Uned Gwasanaethau Addysg
GLlA	Gwasanaeth Lles Addysg
AB	Addysg Bellach
cPYDd	[Disgyblion] cymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
AU	Addysg Uwch
CA	Cyfnod Allweddol
ALl	Awdurdod Lleol (y cyngor)
PDG	Plentyn/Plant sy'n Derbyn Gofal
NEET	Pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
OGC	Swyddfa Masnach y Llywodraeth
AAABA	Addysg Awyr Agored, Breswyl, Amgylcheddol
PACA	Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe Swansea Welsh in Education Partnership
MPA	Monitro Perfformiad ac Ariannol
CDdB	Cymuned Ddysgu Broffesiynol
ADDLl	Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog
UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion
BGC	Bwrdd y Gwasanaethau Lleol
AoS 2020	Addysg o Safon 2020
RRhMD	Risgiau, Rhagdybiaethau, Materion a Dibyniaethau
ACEY	Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol
AAA	Anghenion addysgol arbennig
PGY	Partneriaeth Gwella Ysgolion
ALlICh	Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
BAS	Bwrdd Arweinwyr Strategol [Addysg]
RhAS	Rhaglen Amlinellol Strategol
CAA	Cyfleuster Addysgu Arbenigol
CA	Cynorthwy-ydd Addysgu

TAY	Tîm am yr Ysgol
GAT	Gwasanaeth Addysg Teithwyr
CCUHP	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
PABAN	Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru
Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
LlC	Llywodraeth Cymru